

1. Mae'r fwsariaeth hon yn agored i Israddedigion yn unig
2. Rhaid i ymgeiswyr feddu ar gynnig gan Brifysgol Aberystwyth
3. Rhaid i ymgeiswyr allu darparu tystiolaeth eu bod yn byw mewn caledi ariannol ac wedi cael eu geni yng Ngheredigion neu wedi byw yng Ngheredigion am y 3 blynedd cyn gwneud cais.
4. Mae'r fwsariaeth yn werth £500 y flwyddyn. Gwneir taliadau mewn dau randaliad cyfartal yn uniongyrchol i gyfrif banc y derbynwyr. Y symiau fydd; £250 ym mis Rhagfyr a £250 ym mis Mawrth.
5. Bydd y Panel Dyfarnu yn cyfarfod i benderfynu ar y dyraniadau; mae penderfyniad y Panel Dyfarnu yn derfynol.
6. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus fynychu pob darlith a chyrraedd a chynnal lefel uchel o berfformiad a phresenoldeb academiaidd, fel y penderfynir gan y Panel Dyfarnu.
7. Mae'n bosibl y bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio gyda thiwtor dynodedig, adrannau academiaidd y Brifysgol, a'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni i hyrwyddo'r fwsariaeth a'r effaith a gafodd ar eu hastudiaethau.
8. Ni wneir taliadau yn ystod blwyddyn dramor, blwyddyn mewn gwaith, blwyddyn rhyng-gwrs, blwyddyn sy'n cael ei hailwneud, ac ati.
9. Mae'r gwobrau'n daladwy i fyfyrwyr sy'n astudio ar gyfer gradd lawn yn unig (nid i'r sawl sydd wedi trosglwyddo i flynyddoedd 2 neu 3 o'r cwrs).
10. Bydd taliadau i fyfyrwyr sy'n tynnu'n ôl dros dro yn ailgychwyn o ddechrau'r tymor llawn nesaf pan ailgychwynnant ar eu hastudiaethau (ni fydd unrhyw daliadau sy'n weddill o'r tymor pan dynnant yn ôl yn cael eu talu).
11. Mae'n bwysig cofio, os y byddwch mewn dyled i'r Brifysgol, y bydd taliadau'r Ysgoloriaeth neu Fwsariaeth yn cael eu dal yn ôl a'u defnyddio yn erbyn y ddyled.
12. Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl o'u hastudiaethau am byth cyn Rhagfyr 1af, bydd y Swyddfa Gyllid yn hawlio'r cyfan o'r taliad cyntaf yn ôl. Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl am byth rhwng Rhagfyr 1af a Mawrth 2il, bydd y Swyddfa Gyllid yn hawlio yn ôl y cyfan o'r ail daliad. O dan yr amgylchiadau hyn, os nad yw'r symiau yn cael eu had-dalu, mae'n bosibl y bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at asiantaeth casglu dyledion y Brifysgol.
13. Mae'r wybodaeth a geir yn y ddogfen hwn yn berthnasol i fyfyrwyr a fydd yn ymgymryd â'u hastudiaethau yn Aberystwyth yn unig, ac nid yw'n berthnasol i fyfyrwyr sy'n astudio rhaglenni breiniol neu raglenni wedi'u dilysu a gyflwynir gan bartneriaid.
14. Bydd cynnydd academiaidd anfoddfaol, neu gynnydd anfoddfaol yn unrhyw un o'r meysydd hyn, heb achos da, yn arwain at derfynu'r dyfarniad.

Y Fwrsariaeth Gwyneth Evans

Telerau ac Amodau

15. Bydd taliadau'n parhau am gyfnod y dyfarniad yn amodol ar gymhwysedd parhaus

16. Mae Prifysgol Aberystwyth yn cadw'r hawl i newid neu ddileu unrhyw un o'n Hysgoloriaethau, Bwrsariaethau a Gwobrau Ariannol cyfredol.

17. Bydd methu â bodloni unrhyw un o'r gofynion uchod yn arwain at dynnu'r fwrsariaeth yn ôl.